**PANEL PENODIADAU ARBENNIG**
**(PENNAETH Y GWASANAETHAU PLANT)**

Cofnodion Y Panel Penodiadau Arbennig [Pennaeth y Gwasanaethau Plant] a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Mercher, 13 Hydref. 2010 am 4.50 p.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyd J Chamberlain-Jones, J A Davies, H H Evans, M M Jones a D Owens.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr, Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion, Pennaeth Strategaeth H R, y Swyddog Personél (AD) a Phennaeth Rheolaeth Gorfforaethol ynghyd ag Ian Jeffcott (Ymgynghorydd).

**374 PENODIAD CADEIRYDD**

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cynghorydd M M Jones gael ei phenodi i gadeirio'r Panel*

**375 EITEMAU BRYS**

Nid oedd yr un

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** yn unol ag Adran*100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y dylai'r Wasg a'r Cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail y gallai eu presenoldeb arwain at ddatgeliad tebygol gwybodaeth eithriedig fel y caiff honno ei diffinio ym Mharagraffau 12 ac 13 o Ran 4, Sgediwl 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**376 PENODI PENNAETH Y GWASANAETHAU PLANT – Y RHESTR FER DERFYNOL**

Adroddodd Ymgynghorydd y Cyngor bod dau ymgeisydd wedi mynychu'r Ganolfan Asesu. Cyflwynodd yr Ymgynghorwyr drosolwg o broses y Ganolfan Asesu a'r ymarferion a gwblhawyd. Roedd yr Ymgeiswyr wedi cwblhau proffil personoliaeth a darparodd yr Ymgynghorwyr adborth i'r aelodau am hynny. Yn ystod y diwrnod roedd yr ymgeiswyr wedi cael eu hasesu ar ystod o ffactorau gan gynnwys ymarferiad ysgrifenedig a rhyngweithio gyda Phanel o aelodau'r Bartneriaeth, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol; y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion ac Aelodau.

Ymatebodd yr ymgynghorydd i gwestiynau gan yr aelodau ynghylch y broses a'r adborth am bob ymgeisydd. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth ofalus i bob ymgeisydd cyn dod i'r casgliad, ar sail teilyngdod, y dylai un fynd yn ei flaen i gael y cyfweliad terfynol gan y Panel.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) y dylai ymgeisydd dau fynd ymlaen i'r cyfweliad terfynol gan y Panel ar 14 Hydref 2010, gyda'r Panel yn ail-ymgynnull am 9.45 a.m. a'r ymgeisydd yn cael ei gyfweld am 10.00 a.m.*

*(b) Y dylai'r ymgeisydd wneud cyflwyniad am destun penodol yn y cyfweliad terfynol ac ateb y cwestiynau y bydd aelodau'r Panel yn eu gofyn iddo. Bydd dyraniad y cwestiynau dan sylw yn cael ei bennu gan y Panel.*

Daeth y cyfarfod i ben am 5.30 p.m.

********